PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 159 | Rhif 2 | Ionawr 8, 2026 | 50c.

## Edward Griffiths

Yn annisgwyl hunodd y Parchg Edward Griffiths noswyl Nadolig. Roedd Edward yn hanu o Drefach Felindre a'i godi i'r weinidogaeth yn Soar, Penboyr. Cafodd ei ordeinio yn Llanboidy a Rhydyceisiaid a gweinidogaethodd hefyd yn Carmel Pen-bre, Hope Pontarddulais, Bethesda Tymbl a Capel Newydd Llandeilo, Capel Isaac, Salem Heol Galed a Seion Llandybie gan ofalu am gyfnod dros Seion Pen-bre. Cydymdeimlwn â'i briod Rhiannon (sydd mewn cartref gofal) Owain, Rhodri a'u teuluoedd.

**GMJ**

# Cwrdd Chwarter Gorllewin Caerfyrddin

## Byddwch yn Grist-debyg!

*Neges heriol y Parchg Gareth Ioan wrth ddod i gadair Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yng nghyfarfod y prynhawn yng Nghwrdd Chwarter olaf 2025 yng nghapel Seilo, Llangeler.*




Yn dilyn darlleniad gan Margaret Evans a gweddi gan Meryl Evans, fe wnaeth y cadeirydd newydd annerch ar y testun 'myfi yw'r ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd' (Ioan 14:6). Nododd yr heriau sy'n wynebu Cristnogion. Wrth i gynulleidfaoedd fynd yn llai a chapeli'n cau mae'n fwy anodd inni gael ein clywed, gan fod cymaint o bethau eraill ar feddwl pobl. Er hynny, rydym yn cadw'r ffydd – nid yn unig oherwydd dyletswydd, arferiad a theyrngarwch i'n hynafiaid, ond hefyd teyrngarwch at ein Harglwydd Iesu Grist, a'r datguddiad o natur Duw yn ei Efengyl ef.

### Y ffordd, y gwirionedd ...

Dylem geisio bod yn Grist-debyg trwy ddangos cariad at eraill, a sicrhau bod ffordd Iesu yn dod yn ffordd o fyw inni i gyd. Ydy hyn yn cael ei amlygu yn ein bywydau? Daeth Iesu i achub y byd, ac mae'n defnyddio ni Gristnogion i wneud hynny. Dywedir ein bod yn byw mewn oes ôl-wirionedd gyda phobl o egwyddorion gwahanol yn camwirioneddu. Ond mae gwirionedd Iesu yn unol â chynllun sylfaenol Duw, sy'n rhoi bodolaeth i bopeth.

### ... a'r bywyd

Duw sy'n creu, yn ysbrydoli, ac yn meithrin popeth. Mae gan rym cynhyrchiol y Gair y gallu i'n hatgyfodi ni o hyd. Nid oes angen aros hyd farwolaeth cyn profi atgyfodiad – mae'n digwydd bob tro y dangoswn gariad at rywun. A dyna sut mai Iesu Grist yma o hyd. Dilyn ffordd Iesu yw'r unig ffordd o fyw. Heb Iesu, marw ydym; gyda Iesu, rydym oll yn barhaol fyw. Ef yw awdur a chynhaliwr bywyd sydd o'n plaid hyd yn oed pan welwn bopeth yn dywyll, oherwydd ef yw'r ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd.



Yn dilyn ei anerchiad, ac i bawb ganu emyn, gweinyddodd y Parchg Gareth Ioan y Cymun.

### Y gynhadledd yn Seilo

Cadeiriwyd cyfarfod y bore gan Jean Lewis, a ddiolchodd i'r gweinidog, y swyddogion, ac aelodau Seilo am y gwahoddiad. Yn y gwahoddiad i addoli, fe wnaeth Marian Lloyd Jones ddarllen a Heiddwen Jones weddïo, cyn i Meryl Evans groesawu pawb yn gynnes ar ran Seilo, a rhoi hanes yr achos yn ei bro heddiw. Mae 73 aelod yn yr eglwys gyfeillgar a gweithgar hon sy'n cydaddoli am yn ail gydag aelodau Hermon. Yn ystod y Nadolig mae'r plant ac oedolion ar y cyd yn cynnal oedfa, a bydd aelodau lleol Merched y Wawr yn ymuno hefyd. Casglant yn rheolaidd i'r banc bwyd lleol, ac i elusennau eraill, a wynebant y dyfodol yn obeithiol.

### Pigion o'r cyfarfod

Pryder y Peilonau – Trafodwyd y sefyllfa ynglŷn â Green Gen yn bwriadu codi peilonau dur i ddod â thrydan o ddwy fferm wynt i'r ardal hon drwy Ddyffryn Tywi, a chytunwyd i ysgrifennu eto at Ann Davies AS, ac i Lywodraeth Cymru i weld beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf, yn ogystal ag anfon llythyr i Brif Weinidog Cymru, Eluned Morgan. Nodwyd fod y bwriad yn peri gofid mawr i ffermwyr a thrigolion sawl cymuned.

Cynrychiolydd ar y Cyngor – Cytunodd Gareth Ioan i fynychu cyfarfod mis Mawrth nesaf o Gyngor yr Undeb, 6–7 Mawrth 2026, fel un o gynrychiolwyr y Cyfundeb.

Is-gadeirydd – Yr is-gadeirydd nesaf fydd Brian Walters, ysgrifennydd eglwys Elim, Ffynnon-ddrain sy'n adnabyddus trwy Gymru am ei waith blaenllaw gydag Undeb Amaethwyr Cymru.

Mudiad Ieuenctid Cristnogol – Bydd MIC yn cynnal 'Joio gyda Iesu' ar brynhawn Sul 7 Chwefror 2026 ac ar nos Wener, 10 Gorffennaf bydd y chwaraeon blynyddol yn ysgol Maes y Gwendraeth.

Masnach Deg – Holwyd os yw Castell Newydd Emlyn yn dal i fod yn dref Masnach Deg fel y nodir ar arwydd y dref. Cytunwyd i ymchwilio i'r mater.

Pwyllgor Cenhadol – Bydd cyfarfod yn y flwyddyn newydd i drafod materion oedd yn codi o'r cyfarfod arbennig o'r

*parhad ar dudalen 2*

## Cwrdd Chwarter Gorllewin Caerfyrddin – parhad

Pwyllgor a gynhaliwyd yn dilyn y gynhadledd ym Mhant-teg ym mis Medi.

Gwefan y Cyfundeb – Adroddodd swyddog cyhoeddusrwydd y Cyfundeb bod dros 6,700 wedi ymweld â'r wefan ers Cwrdd Chwarter mis Medi a dros 27,000 mewn blwyddyn.

Adroddiad y trysorydd – Bydd casgliad y ddwy oedfa yn Seilo yn mynd tuag at 'Ysgol Babell Gaza'. Cytunwyd i gadw tâl aelodaeth yr eglwysi i'r Cyfundeb yn 20c yr aelod; talu aelodaeth yr Undeb a £50 i'r Undeb ar gyfer CWM. Trafodwyd yr holl arian ymddangosiadol sydd gan yr Undeb ac eglurwyd bod yr Undeb yn atebol i'r Comisiwn Elusennau am sut y mae'r arian yn cael ei wario. Mae gan Tom Defis lyfrau oddi wrth Aled Davies, Cyhoeddiadau'r Gair, sy'n werth £90 ond ar gael i'r eglwysi am £30. Gellir cysylltu ag ef i'w prynu.

Rhaglen Arloesi a Buddsoddi – Nodwyd bod newid wedi bod yn y modd mae'r grantiau'n cael eu cynnig ar gyfer prosiectau – o £10,000 y flwyddyn am 5 mlynedd i £20,000 y flwyddyn am 3 blynedd. Atgoffwyd yr eglwysi i gael gair â'r Undeb os am ddatblygu prosiect.

Cwrdd Chwarter – Dydd Iau, 12 Mawrth 2026, Capel y Graig, 10.30 a 1.30. Bwriedir cael sesiwn ar ddiogelwch a'r pwysigrwydd o lanw ffurflen DBS. Codwyd nifer o gwestiynau. Gellir cael ffurflenni o'r swyddfa yn Ninbych. Estynnwyd croeso gan Jean Lewis i bawb i'r eglwys hanesyddol hon ym mis Mawrth.

Diolch – Diolchodd Jean am bob cyfraniad yn ystod y gynhadledd, am y fraint o fod yn gadeirydd yn ystod y flwyddyn; i'r is-gadeirydd am gadeirio unwaith pan roedd hi'n absennol, ac i'r ysgrifennydd, y cofnodydd, y trysorydd, aelodau'r Pwyllgor Gwaith, a'r Cyfundeb am bob cymorth. Yn ystod canu'r emyn olaf gwnaed y casgliad tuag at ysgol symudol yn Gaza, cyn i bawb gydadrodd y Weddi Apostolaidd i orffen y cyfarfod

**Joan Thomas**
Cofnodydd

# Crefydd yn arf gwleidyddol




Fe allai 2026 weld trobwynt mawr yn hanes Cymru, wrth i'r pleidiau gwleidyddol baratoi i hogi eu harfau ar gyfer etholiadau'r Senedd ym mis Mai. Un arf sy'n cael ei hogi'n frwd gan elfennau asgell dde yw crefydd. Ym mhrotest anferth 'Unite the Kingdom' yn Llundain nôl ym mis Medi fe welwyd rhai Cristnogion yn cario croesau mawr o bren, tra bod un siaradwr ar ôl y llall yn lladd ar Islam a chrefyddau eraill. Mae nifer o arweinwyr y prif enwadau yn ofni y gallai natur a bwriad y frwydr dros adfer 'gwerthoedd Cristnogol Prydain' gael canlyniadau gwleidyddol a chymdeithasol difrifol. Cyhoeddwyd llythyr agored cydenwadol oedd yn datgan bod Iesu'n galw ar Gristnogion i garu cymdogion a gelynion, ac i groesawu'r dieithryn. Mewn ymateb i neges 'Unite the Kingdom' – 'Put Christ back into Christmas' – fe wnaeth Eglwys Loegr osod posteri mawr mewn llochesau bws dros gyfnod yr ŵyl oedd yn datgan: 'Christ has always been in Christmas' ac 'Outsiders welcome.' Bydd 2026 yn flwyddyn heriol.

(Mae modd gweld erthygl Alun Lenny yn ei chyfanrwydd ar www.cristnogaeth21.cymru/blog)

# Capel y Wig, Llangrannog, Ceredigion



*Jon Meirion Jones yn 90 oed gyda'i fab, ei chwaer, ei weinidog a'r gacen.*

Llongyfarchiadau calonnog iawn i Ysgrifennydd Capel y Wig wrth iddo gyrraedd ei ben-blwydd yn 90 oed. Ym mis Tachwedd 2025 dathlwyd pen-blwydd Jon Meirion Jones, Bryndewi, Llangrannog gyda'i deulu a hefyd teulu'r ffydd yng Nghapel y Wig. Cafwyd gwasanaeth yn y capel dan ofal ei weinidog y Parchg Carys Ann, yna croesawyd pawb i'r festri lle'r oedd te arbennig wedi ei baratoi. Cacen pen-blwydd, hamper bwyd a danteithion amrywiol, a chyfarchiad Beirdd Cerdd Dafod Tanygroes wedi ei argraffu.

Yr Adran
Gydenwadol

IONAWR 8 2026 RHIF 254

# Gair o Gyngor yr Ysgolion Sul

Wrth edrych ymlaen at 2026, tybed oes yna gynlluniau ar y gweill i estyn allan yn genhadol i gyhoeddi'r newyddion da yn ein cymunedau?

Oes yna ddarpariaeth gwaith plant ac ieuenctid yn eich gofalaeth / bro? Os nad oes yna, tybed oes yna gyfleon newydd yn eu cynnig eu hunain i chi? Yn dilyn cyhoeddi adroddiad 'Y Diwygiad Tawel' yn ystod 2025, tybed sut fedrwn ni estyn gwahoddiad i deuluoedd yn ein hardal i ymgysylltu â'r eglwys?

Cofiwch fod Cyngor yr Ysgolion Sul yno i'ch cefnogi.

Dyma ddolenni i ddau gyhoeddiad newydd gennym:

- CYSylltiad 2026: – bwletin sy'n crynhoi ein darpariaeth ddiweddaraf i eglwysi ac ysgolion Sul Cymru
- catalog adnoddau rhyngweithiol: wedi ei ddiweddaru i gynnwys holl gyhoeddiadau 2025 a rhai o lyfrau newydd 2026 sydd ar y ffordd yn fuan.




Mae ein pum gwefan hefyd yn cael eu diweddaru yn gyson, yn llawn gwybodaeth a chanllawiau:

**www.ysgolsul.com** – Mae adrannau newydd diweddar yn cynnwys canllawiau ar gyfer gweddïo gyda phlant, darllen y Beibl a gwaith ysgolion.

**www.gobaith.cymru** – Ychwanegwyd dros 30 o emynau newydd i'r wefan yn ystod 2025, ac mae nifer eto i ymddangos yn fuan. Os ydych chi'n cyfansoddi neu'n cyfieithu emynau cyfoes, cofiwch eu hanfon atom er mwyn i ni eu hawdurdodi gan yr awduron gwreiddiol a'u gosod ar y wefan.

**www.cristnogaeth.cymru** – Mae'r adrannau gwybodaeth newydd yn cynnwys adrannau ar gefnogi gwaith cefn gwlad, canllawiau dementia, ffydd a chwaraeon, a newid hinsawdd.

**www.beibl.net** – Mae'r wefan hon yn parhau'n brysur a phoblogaidd, gyda channoedd o ymwelwyr bob wythnos.

**www.gair.cymru** – Ychwanegwyd llinell amser newydd sydd ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim, ynghyd â 12 pecyn o werslyfrau newydd yn y gyfres 'Y Gwir Ffordd'.

Cofiwch gysylltu os medrwn fod o gefnogaeth i'ch gweinidogaeth a'ch cenhadaeth.

Gan ddymuno bendith Duw ar weithgarwch y flwyddyn newydd.

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr*

# O Gefn Gwlad

## Ble mae'r coma?

Cwestiwn pwysig ar ddechrau blwyddyn, tybed? Wel, darllenwch ymlaen a falle y byddwch yn cytuno ei fod.

Aeth peth amser heibio bellach ers pan gawsom oedfa arbennig yng Nghefnddwysarn yng nghwmni Beryl Vaughan, Llanerfyl, un o ferched Meirionnydd, cofiwch, er bod mwynder Maldwyn yn rhan ohoni erbyn hyn. Fe seiliodd ei gwasanaeth ar yr adnod 'Duw, cariad yw' o Epistol Cyntaf Ioan. Ac yn ystod yr emynau, gan na allaf brin ganu erbyn hyn, fe'm cefais fy hun yn meddwl ble tybed y mae'r coma yn y cymal yma o adnod, os oes un o gwbwl?

Dwi ddim yn credu bod dim byd yn od iawn mewn meddwl fel hyn chwaith, gan fod lleoliad coma yn aml yn gallu newid ystyr brawddeg neu gymal. Felly hwn. Y mae yna wahaniaeth rhwng 'Duw cariad yw' di-goma a 'Duw, cariad yw'. Y mae'r ail yn rhoi mwy o bwyslais ar y cariad ac yn awgrymu y gallasai fod yn Nduw rhywbeth arall hefyd ym meddyliau rhai.

Ac yn wir, o fynd i lyfrau'r Hen Destament, fe ganfyddwn fod hynny'n wir dro ar ôl tro yn syniadau'r bobl ar hyd y canrifoedd. Y mae Duw, ymhlith pethau eraill, yn dduw rhyfelgar, yn dduw eiddigus, yn dduw dialgar ac yn dduw dicllon. Dyma rai adnodau i brofi hynny; gellid dyfynnu rhagor:

**rhyfelgar**: Ecsodus 15:3 – Yr Arglwydd sydd ryfelwr (meddai Moses)

**eiddigus**: Ecsodus 34:4 – Duw eiddigus yw efe

**dialgar**: Eseia 35:4 – eich Duw chwi a ddaw â dial

**dicllon**: Eseia 5:25 – Am hynny yr enynnodd llid yr Arglwydd yn erbyn ei bobl.

Yn fersiwn yr Esgob William Morgan y mae'r coma yn y cymal: 'Duw, cariad yw', ond nid mewn fersiynau eraill. Mae hyn yn gwneud i mi feddwl bod yr Esgob wedi ei deall hi, wedi sylweddoli bod Duw yn cael ei gydnabod yn llawer peth, a bod angen felly bwysleisio yn wyneb hyn mai cariad ydyw, nid dim un o'r disgrifiadau eraill a briodolir iddo. Mae Beibl.net hefyd, a bod yn deg, yn ceisio pwysleisio hynny drwy ddweud: 'Cariad ydy Duw', ond bod yr hen 'ydy' yna yn anffodus yn fy atgoffa i o fuwch! Wfft i ddylanwad Cymraeg Byw.

Yn ogystal â'r coma, y mae i'r atalnod llawn ei bwysigrwydd hefyd. Pwysicach, efallai, a dyna ddaw ar ddiwedd yr adnod 'Duw, cariad yw.' Gall atalnod llawn fod yn ddim mwy na nodi terfyn brawddeg, fel y mae yn amlach na pheidio. Ond gall yn ei dro arwyddo diwedd rhywbeth pwysicach, a dyna a wna yma.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

## O Gefn Gwlad

*(parhad o dudalen 1)*

Wedi dweud 'Duw, cariad yw.' – dyna ni, does dim byd mwy i'w ddweud. Dyna ddechrau a diwedd ein crefydd, a does angen dim byd arall.

Wel oes, medden ni. Y mae angen dehongli'r cariad hwn; y mae angen ei ddiffinio, angen efallai ei ddadansoddi a'i enghreifftio. A chawn fawr hwyl a budd hefyd, gobeithio, wrth drafod hyn oll, gan ymdrechu i beidio crwydro ymhell oddi wrth y testun!

Ond uwchlaw popeth y mae angen ei weithredu. Mewn byd sy'n arddangos cymaint o gasineb, gallwn ddatgan y cariad hwn, gallwn ddweud ein bod yn credu ynddo a gwneud dim, fel y byddai'r *News of the World* erstalwm yn datgan ei fod o blaid y da ac yna'n llenwi'r papur gydag adroddiadau am weithredoedd drwg! Ond cyn bwysiced ag yw cariad Duw yw ein cariad ni at ein gilydd ac at y byd cyfan, sydd, wedi'r cyfan, yn adlewyrchiad o gariad Duw, a hynny gan gofio un arall o adnodau mawr y Beibl: 'Ffydd heb weithredoedd, marw yw.'

Na, nid mewn rhyw fyd tu hwnt i'r llen, neu'n rhodio ar y cymylau y mae'r cariad hwn yn bodoli nac yn gweithredu, ond ynom ni a thrwyddom ni. Y ni sydd i fod i arddangos y cariad hwn, y ni sydd i fod i sicrhau mai cariad, nid casineb, sy'n teyrnasu o fewn ein broydd. 'Teyrnas nefoedd o'ch mewn chwi y mae,' meddai rhywun llawer mwy na neb ohonom. Os felly, onid yno y dylsai cariad fod yn trigo hefyd? Ond nefi, mae ganddon ni gyfrifoldeb, yn'does!

Os ydym yn addunedu unrhyw beth ar ddechrau blwyddyn, beth am benderfynu arddangos cariad Duw, gymaint ag y gallwn o leia, yn ein bywyd bob dydd, gan gofio'r pwyslais a rydd lleoliad y coma yn yr adnod ym Meibl William Morgan.

Ia, un garw oedd yr Esgob, 'dech chi ddim yn meddwl?


*Elfyn Pritchard*

# Merched ym mywyd Cymru yn yr ugeinfed ganrif

Cyfraniad merched i fywyd cyhoeddus Cymru'r ugeinfed ganrif yw'r thema sy'n clymu ynghyd ddwy brif ysgrif rhifyn Ionawr 2026 o'r *Traethodydd*. Mae Llion Wigley yn trafod y lle canolog a chwaraewyd gan ferched ym mywyd Plaid Cymru yn ystod ei blynyddoedd ffurfiannol, tra mae Siân Rhiannon Williams yn ein goleuo ynghylch bywyd, gwaith a gyrfa'r addysgydd o Gaerfyrddin, Elizabeth Phillips Hughes.

'Adnabod Deg Amgen' yw teitl yr ysgrif gyntaf, sy'n ymdrin â chyfraniad menywod i ddatblygiad Plaid Genedlaethol Cymru, *c.*1925–50. Cawn ddysgu am rai fel Mallt Williams, Llinos Roberts, Tegwen Clee, Efelyn Williams, Mai Williams a'i chwaer Priscie ac eraill. Mae'r rhain, i bob pwrpas, wedi eu 'hysgrifennu allan o'r stori' er bod enwau fel Kate Roberts a Cassie Davies yn gyfarwydd i lawer. Fel mae'n digwydd, mae cyfrol ddiweddar Arwel Vittle a Gwen Angharad Gruffudd, *Dros Gymru'n Gwlad: Hanes Sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru*, a adolygir yn y rhifyn hwn gan Richard Owen, yn rhoi sylw manwl i waith arloesol Mai Williams yn arbennig, ac eto mae'n dda cael gwybod mwy am y merched 'coll' hyn.

Enw anghyfarwydd i lawer yw Elizabeth Phillips Hughes, testun ysgrif afaelgar Siân Rhiannon Williams. Yn enedigol o Gaerfyrddin ac yn chwaer i'r pregethwr Wesle enwog Hugh Price Hughes, hi oedd prifathrawes gyntaf Coleg Hyfforddi Merched Caer-grawnt, a bu'n hynod flaengar yn ei dydd wrth geisio sicrhau cyfle a chyfartaledd i ferched ym maes addysg uwch. 'Merch Myrddin' oedd ei henw barddol, ac wedi gadael Caer-grawnt aeth i fyw i'r Barri gan ymroi i'r mudiadau cymdeithasol oedd yn ffynnu yno ac yng nghylch Caerdydd yn negawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif. Meddai Siân Rhiannon: 'Cafodd fywyd amrywiol a diddorol, ond fel cynifer o fenywod a gafodd ddylanwad arhosol yn lleol ac yn genedlaethol, aeth Elizabeth Hughes yn angof i lawer yng Nghymru. Mae'n bryd rhoi'r sylw haeddiannol iddi'. Gwych o beth yw cael gwneud hynny trwy gyfrwng yr ysgrif bwysig hon.





Enw cyfarwydd i ddarllenwyr *Y Traethodydd* yw Aled Jones Williams, nid yn gymaint fel dramodydd neu nofelydd ond fel bardd. Cerddi byrion, cryno, epigramatig sydd ganddo. Yn ôl yr Athro M. Wynn Thomas, mae'n fardd 'sy'n arbenigo mewn cynhyrchu "haikus" ysbrydol gwefreiddiol o dreiddgar. Efe, yn ddi-os, yw bardd "crefyddol" mawr ein cyfnod petrusgar, ymchwilgar ni'. Fel radical, yn wir fel drylliwr delwau, y caiff ei adnabod orau, efallai, ond dengys ei gyfrol hunangofiannol ddiweddar *Reit Rownd: Cyffes Aled Jones Williams* fod cryn newid wedi digwydd yn ei hanes. 'Cerdded y Cylch Cyfan: llwybr hirfaith Aled Jones Williams' yw teitl ysgrif-adolygiad gan y Golygydd, sy'n crynhoi cynnwys y gyfrol hynod hon. Yn ei dyb ef, mae hon yn un o gyfrolau crefyddol mwyaf trawiadol y blynyddoedd diwethaf. 'Gwledd sydd yma i'r meddwl ac i'r dychymyg,' meddai. Felly, anogwn bawb i ddarllen yr adolygiad ac, yn bwysicach na hynny, y gyfrol sy'n sail iddo.

Beirdd y rhifyn hwn yw Mary Burdett-Jones a D. Ben Rees. Dylid crybwyll hefyd ysgrif fer y llyfrbryf Gerald Morgan, gwaith ditectif ar y gyfrol *Car-ŵr y Cymry*, ysgrif sydd hefyd yn werth ei darllen. Ffyddloniaid y cylchgrawn yw'r tri awdur hyn, ac mae'n dda cael cynnwys eu gwaith.

Yn ôl ein harfer, anogwn ffyddloniaid *Cenn@d* nid yn unig i ddarllen *Y Traethodydd* ond i'w brynu a'i archebu. Gellir gwneud hynny trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar X ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch â Rhian Melhuish (rhian.melhuish@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 11 – Ymson Hulda

Hulda ydw i. Rwy'n wraig i'r un sy'n edrych ar ôl gwisgoedd y brenin Joseia, ond fy arfwisg i yw gwirionedd yr Arglwydd. Ry'n ni'n byw yn Jerwsalem, yn y rhan newydd o'r ddinas sy'n cael ei hadnabod fel yr Ail Barth. Ond peidiwch â gadael i hynny eich camarwain, oherwydd, mewn gwirionedd, fe gewch hyd imi yn y tawelwch lle mae Duw. Yno rwy'n ymlonyddu ac yn clywed ei lais.

Daeth negeswyr y brenin ataf mewn panig. Fe wyddwn, cyn iddynt gyrraedd, eu bod ar fin dod, a gwyddwn pam hefyd. Mae'n rhaid iddynt gael gafael ar y sgrôl a fu'n llechu yng nghysgodion y deml. Roedd pwy bynnag a'i darganfu wedi meddwl ei fod yn drysor a'i fod yn cadw cyfrinachau gwerthfawr, ond cafwyd siom yn sicr! Roedd y dynion pwysig a chryf yma'n sefyll o fy mlaen i nawr yn llawn ansicrwydd.

Pasiodd un ohonynt y sgrôl i mi. Teimlais ei bregusrwydd yn fy nwylo, yn ogystal â phwysau'r blynyddoedd. Blynyddoedd o gael ei hanwybyddu, blynyddoedd o ddyheu am gael ei darllen. Ond er gwaetha'r blynyddoedd maith, 'dyw cyfraith yr Arglwydd ddim yn pallu wrth gael ei hanghofio. Fe drodd y genedl oddi wrth y gyfraith, do. A nawr, wele'r sgrôl yn deffro rhwng fy mysedd ac yn dweud: 'Gwae chi am f'anghofio.'

Gofynnodd un o'r dynion imi beth oedd neges Duw ar eu cyfer, a dechreuais esbonio wrtho. Gwnes yn siŵr nad oedd fy llais yn simsanu, er mor danbaid y neges. Gwell oedd iddynt glywed y gwirionedd yn eglur a chlir.

Daw trychinebau lu i'r lle hwn oherwydd i'r bobl anghofio am Dduw. Llosgwyd arogldarth i dduwiau gau – dyna gamgymeriad. Cythruddwyd yr Arglwydd gan y delwau a grëwyd – camgymeriad arall. Ddaw dim daioni o hyn ac ni ddylid gwneud yn ysgafn ohono. Rhaid cofio nad creulondeb Duw sy'n cael ei amlygu drwy hyn, ond anfodlonrwydd mawr.

Yna dywedais wrthynt am ddychwelyd at Joseia a dweud wrtho fod yr Arglwydd wedi'i weld yn rhwygo'i ddillad ac yn deall ei fod yn edifarhau. Sylwodd yr Arglwydd ar ei wyleidd-dra; clywodd yr Arglwydd ef yn wylo. Felly, oherwydd ei ddiffuantrwydd, byddai Joseia yn cael ei ryddhau. Caiff farw cyn profi'r trychinebau a gorwedd yn hedd ei feddrod.

Gofynnais iddynt wedyn pam nad oeddent yn galllu gweld mor rhyfeddol yw'r Arglwydd? Er ei fod yn ddig, mae ei ras yn fwy na'i farn. Gwell gan yr Arglwydd ganmol y rhai sy'n glynu wrtho na barnu'r rhai ffôl. Bydd gras Duw'n gorlifo dros y rhai sy'n edifarhau. Rhaid cofio hynny. Fe aethant yn ôl at Joseia.

Beth amdanaf fi? Person syml ydw i. Does gen i mo'r llais cryfaf, a dwi ddim yn bwysig; dwi ddim yn enwog nac yn llwyddiannus. Ond rwyf wedi cydio'n dynn yn yr Arglwydd yn gyson. Oherwydd hynny, medrais siarad yn hyderus.

Ydych chi'n pendroni pam y cefais i fy newis i fel proffwyd? Pam na fyddai Duw'n dewis y brenin Joseia, neu un o'r pwysigion? Welwch chi, mae Duw'n dewis fel a fynno. Weithiau bydd yn rhoi'r gwir mewn ystafell dawel am gyfnod, ac yna ar wefusau rhywun annisgwyl. A chofiwch hyn: nid yw Gair Duw yn rhywbeth cyfforddus bob amser; mae'n annog ymateb, mae'n ein cymell i edifarhau, mae'n ein herio i weithredu.

**Holi**

- Roedd Hulda'n broffwyd hyderus mewn cymdeithas batriarchaidd. Sut mae ei hesiampl hi'n herio ein syniadaeth ni o'r rhai mae Duw'n eu dewis i wneud ei waith yn ein cyfnod ni? A sut gall yr eglwys heddiw barchu pawb?
- Rhannodd Hulda am farn a gras dwyfol. Sut gall ei neges fod o gymorth inni ddatrys tensiynau ein hoes wrth ystyried pechod, edifarhau a chanlyniadau anwybyddu Duw?
- Cawn ein hatgoffa pa mor bwysig yw gwrando ar lais Duw cyn siarad ar ei ran. Sut gall stori Hulda siapio ein dealltwriaeth ni o ddirnadaeth ysbrydol? A sut gallwn ni ddatblygu calonnau diymhongar (heb fod yn llwfr) yn ymarferol ynghanol ein byd swnllyd?
- Roedd Hulda'n byw ar gyrion ei chymuned ac mae ei hymddangosiad yn y Beibl yn fyr iawn. Ond fe broffwydodd newid mawr. A oes ganddi hi neges ar ein cyfer ni yng nghyd-destun pwysigrwydd ffyddlondeb o'i gymharu â chydnabyddiaeth ac amlygrwydd personol?

**Gweddi**

Dduw ffyddlon, cryfha ein ffyddlondeb.
Dduw eiddigeddus, tro ein golygon atat Ti.
Dduw llawn gras, cymell ni i edifarhau.
Dduw cariadlon, llenwa ni â'th gynhesrwydd.
Dduw maddeugar, derbyn ni yn aml, aml.
Dduw amyneddgar, rho ddyhead yn ôl yn ein calonnau.
Dduw cadarn, nertha ein hymdrechion.
Dduw rhyfeddol, dyro inni'r gallu i weld dy ryfeddod. Amen.

*Siân Meinir*

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 11 Ionawr, am 7:30yh – Cwmorthin**
Bydd Lowri Morgan yn ymweld â hen bentref Cwmorthin uwchben Tanygrisiau i ddysgu am fywyd caled teuluoedd y chwarel a'r ffydd grefyddol oedd yn eu cynnal. Cawn fwynhau perfformiad gan Gôr y Brythoniaid a daw'r canu mawl o Gapel y Bowydd, Blaenau Ffestiniog, dan arweiniad Trystan Lewis.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 11 Ionawr, am 7:30yb a 2:00yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Geraint Morse

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 11 Ionawr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Heini Jones, y Tymbl

# Y Parchg Ioan Wyn Gruffydd



Er mai â Nefyn y cysylltir enw Ioan yn bennaf, ym Mryn Teifi, Llithfaen y treuliodd ei flynyddoedd cynnar rhwng 1938 ac 1947, yn fab i John ac Elen ac yn frawd i Gwawrwen, ac yr oedd dylanwad eglwys Moreia, Llithfaen a gweinidogaeth y Parchg Arthur Thomas (Llanfair Caereinion wedyn) yn un ffurfiannol arno. Ond yn 1947 symudodd y teulu i Eryri, Nefyn. Ymaelododd y teulu yn Soar yn y dref honno, ac roedd Ioan yn gyson ddyledus i'r eglwys yn Soar a'i gweinidogion yn y cyfnod hwnnw – y Parchedigion D. J. Williams a Gwyn Jones.

## Addysg

Wedi cyfnod llewyrchus iawn yn yr ysgol aeth i'r brifysgol ym Mangor a graddio mewn Cymraeg, Athroniaeth a Diwinyddiaeth. Graddiodd wedyn o Goleg Bala-Bangor lle'r oedd y Parchedigion Gwilym Bowyer ac R. Tudur Jones yn athrawon ar y pryd; dau arall fu'n ddylanwad trwm arno. Yn dilyn hyn cyfeiriodd ei lwybrau i'r weinidogaeth Gristnogol, a chlywais fy nhad (Gwyn Jones) yn dweud sawl tro mai gwaith y weinidogaeth honno, a'r ochr genhadol iddi'n arbennig aeth â bryd Ioan o'i ddyddiau cynnar.

## Gweinidog

Yn 1962 priododd Margaret, merch Hirwaun, Rhoshirwaun yn Llŷn yng nghapel Hebron, Llangwnnadl ac yn 1963 fe'i hordeiniwyd yn weinidog i Iesu Grist a'i sefydlu yn y Tabernacl, Penmaenmawr a Horeb, Dwygyfylchi. Wedi pedair blynedd o weithio diflino, yn arbennig gyda phobl ifanc, symudodd i eglwys Pantycrwys, Craig-cefn-parc a bu'r un mor weithgar yno. Yna, yn 1971, daeth yn ôl i Ogledd Cymru i eglwysi'r Tabernacl, Noddfa, Tabernacl Newydd a Tabor, Caergybi, ac yn y cyfnod hwnnw bu'n gweithio'r un mor egnïol. Roedd yn arloeswr ym myd y dechnoleg ddiweddaraf ym mhob maes y bu ynddynt, ac yn cynhyrchu cylchgrawn misol safonol – *Y Ddolen*, ac roedd edrych ymlaen at hwn yn ymddangos o fis i fis. Wedi un mlynedd ar ddeg yng Nghaergybi, yn 1982 daeth i Eifionydd yn weinidog ar eglwysi Siloh, Chwilog; Ebeneser, Abererch; Capel Helyg, Llangybi a Maesyneuadd, Trefor.

## Ysgrifennydd Cenhadol

Ymhen dwy flynedd daeth galw arno i weithredu fel Ysgrifennydd Cenhadol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, a dyma Margaret ac yntau yn symud i Abertawe, ac Ioan yn gweithio o Dŷ John Penri yng nghwmni ei gyfaill agos Derwyn Morris Jones, oedd yn Ysgrifennydd Cyffredinol am yr un cyfnod ag Ioan. Yn ystod y pymtheg mlynedd y bu'n gweithredu yn y swydd hon cafodd brofiadau cofiadwy gan deithio i wledydd megis Singapore, Tsieina, Seland Newydd a De Affrica. Byddem ninnau'n cael clywed am ei brofiadau yn y gwledydd hynny ar ôl iddo ddod yn ôl. Teg dweud iddo hefyd roi pwyslais yr un mor amlwg ar y Genhadaeth Gartref a chynhaliwyd sawl encil i'n harwain i feddwl sut y medrem fel gweinidogion ac eglwysi ddod ag Iesu Grist yn ôl i galonnau pobl yng Nghymru ac i bobl ymateb i rym yr Ysbryd.

## Nôl i Lŷn

Yn y flwyddyn 2000 daeth yn ôl i Lŷn ac Eifionydd ac ailgydio yn y weinidogaeth draddodiadol yn Siloh, Chwilog. Erbyn hyn yr oedd Margaret ac yntau wedi cartrefu ym Mhwllheli. Derbyniodd nawdd ariannol gan CWM yn ystod y cyfnod hwn er mwyn ei alluogi i fod yn Ysgogydd Cenhadol Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd. Rhan o'r cytundeb hwnnw oedd i'r ysgogydd fod â gofal arbennig am o leiaf saith eglwys o fewn y Cyfundeb, a bu'n gofalu am wyth ohonynt yn ogystal â Chwilog – Abersoch; Bwlchtocyn; Seion, Llanbedrog; Horeb, Mynytho; Nebo, Rhiw; Seion, Talysarn; Pisgah, Carmel a Drwsycoed. Eto yn ei waith fel gweinidog ac ysgogydd bu'n trefnu amrywiaeth o gyfarfodydd a digwyddiadau. Parhaodd y trefniant hwn am rai blynyddoedd.


Bu Ioan ar hyd ei oes yn weithgar gyda Chymdeithas yr Iaith a Chymdeithas y Cymod ac wedi symud i Bwllheli bu'n gynghorydd tref ac yn faer y dref honno am gyfnod gan gael profiadau cofiadwy eto.

Paratoai'n fanwl ar gyfer pob digwyddiad, boed yn anerchiad, pregeth neu ddarlith, a glynai'n dynn wrth ei raglen waith, ac os oedd oedfa neu gyfarfod i ddechrau ar amser penodedig, ar yr amser hwnnw, nid hyd yn oed ddau neu dri munud wedyn y dechreuai Ioan. Pwy ddywedodd am raglen bywyd a'i brofiadau? – 'I've always left a margin for these things.' Doedd gan Ioan ddim unrhyw 'fargin' i newidiadau! Ei ffydd yn Iesu Grist a'i cynhaliodd ar hyd y daith, a chyhoeddodd y newyddion da am Iesu gydol ei oes.

Bu farw ddydd Sul, 9 Tachwedd, 2025 a daeth cynulliad o deulu, aelodau o'u gyn-ofalaethau a'i ffrindiau i wasanaeth ar bnawn Gwener, 5 Rhagfyr gyda 'thymestl wynt (a glaw) yn codi ei ru.' Ac yn Hebron, Llangwnnadl – yn y capel a'r fynwent y bu hynny. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchg Iwan Llewelyn Jones gyda'r Parchedigion Aled Davies, Chwilog a Geraint Hughes, Pwllheli yn cynorthwyo. Darllenwyd teyrnged hefyd yn y gwasanaeth o waith Bethan, un o'i blant, gan Iwan. Mrs Gwenda Roberts oedd wrth yr organ.

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf a Margaret, Bethan, Nia a Pryderi a'u teuluoedd yn eu colled.

**Iwan Llewelyn Jones**



## Barn Annibynnol

# Crefydd ... opiwm y dorf?

Rwy'n llunio'r eitem hon yn eistedd yn yr haul yn Nhalaith Yucatan, Mecsico. Hon yw'r dalaith lle siaredir yr iaith Maya o hyd gan draean y boblogaeth. Mae'r term 'Maya' yn ein hatgoffa o'r deyrnas enfawr oedd yn bodoli ar un adeg ar draws Canolbarth America – trwy Guatemala, Belize ac i fyny at ganol Mecsico. Rwy'n tybio y bydd pobl yn cofio am y Maya, yr Inca a'r Aztec.

### Crefydd deallus...

Mae teml fwya'r rhanbarth i Kukulcan, duw y Maya mewn lle o'r enw Chichen Itza, nawr yn un o saith rhyfeddod y byd, ac mae ymweld â'r deml a'r adeiladau o'i hamgylch yn brofiad cwbl ysgubol. Nid yn unig o achos ei maint, ond o achos lefel y ddysg sydd yn cael ei amlygu yn ei phensaernïaeth. Fel y mae Bryn Celli Ddu neu Côr y Cewri yn dangos dealltwriaeth o onglau'r haul ar ddyddiadau arbennig, mae teml byramidaidd Chichen Itza yn gwneud hyn, a llawer mwy. Mae i'r deml bedair ochr – pob un â 91 o risiau. Rhwng y 4 ochr, mae gris i bob dydd o bob tymor – ac wedyn un gris ar y top i'r offeiriad, yn rhoi 365 i gyd. Ar ddyddiau arbennig o'r flwyddyn mae ongl yr haul yn rhoi golau ar ffurf sarff ar wahanol ochr i'r deml, ac yn fwyaf rhyfeddol mae onglau'r cerrig yn achosi sŵn eco anarferol. Wrth glapio'ch dwylo tua hanner can llath o'r deml, mae'r eco yn dod 'nôl fel sŵn aderyn sanctaidd a lliwgar y Maya, y Quetzal. Sbŵci iawn.

Mae i'r cyfan batrymau soffistigedig yn dangos dealltwriaeth gyfriniol a mathemategol o'r sêr, y byd, acwsteg, y calendr solar a thymhorol, ac yn y blaen. Rhyw ganllath o'r deml, mae maes chwaraeon enfawr – gyda lle i'r dorf wylio, lle chwaraeid gêm rhwng dynion ifanc, gyda basged i sgorio wrth ochr y cwrt.

Mae'r cyfan i weld mor waraidd ac o wybod hyn i gyd, gallech feddwl bod i'r grefydd hon werth cynhenid o sylwedd a dylid ei hatgyfodi i'n hoes ni. Fe ddatblygodd y cyfan tua'r un adeg â datblygiad Iddewiaeth o Foses i fywyd Crist a sefydlu'r eglwys fore.

### Crefydd creulon

Fodd bynnag, byddai arna i ddim awydd o gwbl i weld crefydd y Maya yn cael ei ail-greu. O amgylch y deml, roedd mannau lle fyddai pobl yn cael eu haberthu i'r duw. Roedd i'r cae chwaraeon symbolaeth llawer mwy na chwaraeon. Byddai'r pencampwr ar ddiwedd y dydd yn cael ei aberthu yn waedlyd i'r duw. Roedd y grefydd wedi argyhoeddi pobl yn ddigonol i gredu fod ganddyn nhw 7 bywyd, a bod gadael y bywyd hwn yn fraint aruthrol. Mae'n debyg y byddai athletwyr yn brwydro i ennill y gêm er mwyn cael marw yn hwyrach y diwrnod hwnnw.

Ym myd y Maya, roedd dosbarth o bobl yn cael eu datblygu fel ysgolheigion, seryddion a mathemategwyr. Eu braint fawr hwythau, rhwng 22 a 24 oed oedd cael eu haberthu ar do'r deml wrth agor eu brest a thynnu'r galon tra ei bod yn dal i guro, a'i chyflwyno i'r duw. Ar ben hyn, yn ardal Chichen Itza mae ogofau sydd wedi llenwi â dŵr, y Cenote. Mae'r rhain yn fannau nofio bendigedig heddiw – fel y tystiodd dwy o fenywod ein teulu ni ddoe. Fodd bynnag, yn eu gwaelodion mae esgyrn plant a gwragedd a gafodd eu hoffrymu i'r duwiau. Taflwyd nhw i mewn, fel rhan o ddefod grefyddol, a'u gadael i foddi er mwyn boddhau'r duwiau. Mae esgyrn yr ebyrth o hyd yn cael eu darganfod yng ngwaelodion y pyllau niferus yn yr ardal.

### Ein hoes ni

Chwalodd gwareiddiad y Maya tua mil o flynyddoedd yn ôl, ond mae parhad o hyd i iaith a hunaniaeth y bobl. Beth sydd i'w ddysgu o hyn oll?

Yn gyntaf, mae hi'n bosib cael pobl anwybodus i gredu nonsens yn enw crefydd. Rwy'n tybio fod hyn yn nodwedd o'r oes bresennol, ac fe welwn ni hyn yn cael ei amlygu gyda diwylliant MAGA America, ac yn gynyddol gyda dilynwyr Tommy Robinson a Christians for Reform sydd yn ceisio uniaethu Cristnogaeth a chenedlaetholdeb asgell dde.

Yn ail, mae hi'n bosib defnyddio crefydd i achosi creulondeb i bobl. Efallai nad dienyddio dyddiol yw'r ffasiwn ar hyn o bryd, ond fe welwn ddiwylliant o Gristnogaeth eithafol yn cael ei ddatblygu sy'n ymfalchïo mewn eithrio pobl a chyfiawnhau eu heithrio o fywyd pob dydd. Gall y gymuned LHDT+ dystio i hyn. Gwnaed hyn yn y gorffennol i bobl groenddu. Ry'n ni'n gwybod, o'n gwersi hanes, beth yw penllanw diwylliant sy'n ymfalchïo mewn eithrio pobl.

Yn drydydd, mae hanes y Maya yn fy atgoffa fod cyfrifoldeb arswydus ar ysgwyddau arweinwyr crefyddol – gallant greu llanast neu greu nirfana o gymdeithas iach. Sefydlodd y ddau efengylwr, Charlie Kirk a Bill Montgomery y mudiad Turning Point yn America yn 2012. Ymhlith blaenoriaethau Turning Point oedd amddiffyn hawliau perchnogion arfau yn America, a gwrthwynebu cyfyngiadau COVID. Mae hi'n eironig i Bill Montgomery farw o COVID, a saethwyd Charlie Kirk yn farw. Y trasiedi yw i filoedd eraill farw o COVID ac i nifer cynyddol gael eu saethu'n farw o achos llwyddiant mudiadau fel Turning Point. Mae lefel o atebolrwydd uchel i arweinyddion crefyddol mewn unrhyw ddiwylliant.

Wrth lwybro i mewn i 2026, dathlwn Iesu y gwynfydau, y Crist cynhwysol, cariadus, gofalgar gan ymwrthod â phob agwedd o grefydd sy'n niweidiol. Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

**Geraint Rees**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Caersalem Pontyberem



Bu eglwys Caersalem wrthi yn ddiwyd yn dathlu ac addoli dros dymor y Nadolig gyda nifer o weithgareddau amrywiol. Ar nos Lun 2 Rhagfyr bu criw Caersalem yn dathlu eu cinio Nadolig yn Bwyd y Cwm, Pont-iets. Gwledd arbennig a chwis i ddilyn o dan ofal ein gweinidog. Pwy enillodd y brif wobr tybed?

Ar fore Sul 14 Rhagfyr fe gynhaliwyd oedfa Naw Llith a Charol fendithiol ac amserol o dan arweiniad yr aelodau. Yn ystod y gwasanaeth fe gafwyd eitemau ar lafar ac ar gân ac i gloi'r gweithgaredd paned, clonc a mins pei i ddilyn yn y festri.

Yna ar fore Sul 28 Rhagfyr cynhaliwyd oedfa'r Plygain yn y festri. Cyflwynwyd hanes y Plygain gan y Parchg Emlyn Dole a chyflwynwyd datganiadau gan Marc Roberts, Lili Roberts, teulu Mansant ac aelodau. Diolch i deulu Mansant am drefnu.





# Hope-Siloh



Cafwyd oedfa hyfryd iawn yn ddiweddar pan fedyddiwyd Elis Owain, mab Rhys ac Eleri. Croeso mawr iddo i deulu Capel Hope-Siloh. Dymunwn fendith Duw ar y teulu i'r dyfodol.



Ffrindiau o gapel Pendref, Rhuthun yn ymweld â'r Parchg Bernant Hughes yng nghartref Bryn Yr Eglwys, Pentrefoelas.

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*